

**CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD 03/02/2020 / MINUTES OF
THE MEETING HELD ON 03/02/2020**

PRESENNOL: Cadeirydd Mrs Edna Jones, Is-gadeirydd Mrs Sharon Jones, Mrs C Parry, Mrs A Williams, Ms M E Evans a Mr Bob Parry.	PRESENT: Chairman Mrs Edna Jones, Vice-chairman Mrs Sharon Jones, Mrs C Parry, Mrs A Williams, Ms M E Evans a Mr Bob Parry.
1. Croeso ac ymddiheuriadau.	1. Welcome and apologies
Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. Oherwydd gwaeledd, derbyniwyd ymddiheuriad am ei absenoldeb oddi wrth Mr G Williams. Derbyniwyd ymddiheuriad hefyd oddi wrth Mrs Christina Summers.	The Chairman welcomed all to the meeting. Due to ill-health, apologies for his absence was received from Mr G Williams. Apologies were also received from Mrs Christina Summers.
2. Datganiadau Diddordeb.	2. Declarations of Interest.
Dim.	None.
3. Cadarnhau cofnodion 06/01/2020.	3. Ratify minutes 06/01/2020.
Cadarnhawyd a derbyniwyd yn gywir cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6/1/2020. Mrs C Parry yn cynnig a Mrs S Jones yn eilio.	The minutes of the meeting held on 6/1/2020 were ratified and accepted as a true record of the meeting. Proposed by Mrs C Parry and seconded by Mrs S Jones.
4. Materion yn codi:	4. Matters arising:
(a) Prydles Cae Peldroed Gwalchmai. Parhau i ddisgwyl am brydles newydd o'r Cyngor Sir.	(a) Lease on Gwalchmai Football Field . Still waiting for a new lease from the County Council.
(b) Plant yn tyrru ger y swyddfa bost/pub.	(b) Children gathering by the post office/pub.
Y Clerc wedi cysylltu â'r Heddlu ac wedi derbyn e-bost yn cadarnhau eu bod wedi ymweld â'r safle ac wedi cael gair a'r plant oedd o gwmpas y swyddfa post/pub.	The Clerk had contacted the Police and had received an email confirming that the police had visited the site and had spoken to the children who had gathered by the post office/pub.
5. Gohebiaeth:	5. Correspondence:
(i) Un Llais Cymru:	(i) One Voice Wales:
(a) Cyfarfod Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr - Rhagfyr 2019. Adroddiad oddi wrth Mike Parry. Derbyn er gwybodaeth.	(a) Meeting of Betsi Cadwaladr Stakeholder Reference Group – December 2019. Report from Mike Parry. For information.
(b) Ymateb Un Llais Cymru i Ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Derbyniwyd er gwybodaeth.	(b) One Voice Wales Response to the Consultation on the Local Government and Elections (Wales) Bill. For information.
(c) Diwygio arfaethedig i ddau Orchymyn Draenio Cynaliadwy. Derbyn er gwybodaeth.	(c) Proposed amendments to two Orders on sustainable Drainage. For information.

(ii) Cyngor Sir Ynys Môn.	(i) Isle of Anglesey County Council
(a) Gwasanaeth Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo. Enwau arfaethedig ar ddatblygiad newydd ar dir tu cefn i Old Police Station. Yr enwau a gynigiwyd gan y datblygwyr yn dderbyniol, ond cynigiwyd dau enw arall gan y Cynghorwyr sef Maes Awel a Lon Awel.	(a) Highways Waste and Property Service. Proposed names for a new development on land to the rear of The Old Police Station. The names suggested by the developers were acceptable but two further names were suggested by the Councillors, i.e. Maes Awel and Lôn Awel.
(b) Cyfarfod Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned 22/01/2020. Cafwyd adroddiad ar gynnwys y cyfarfod gan y Cadeirydd.	(b) Town and Community Councils Liaison Forum meeting 22/01/2020. A report on the content of the meeting was given by the Chairman.
(c) Swyddog Polisi. ARFOR Ffurflenni Grant. Cafwyd sylwadau ar y cynnwys gan Mrs Sharon Jones, Pencampwr Iaith.	(c) Policy Officer. ARFOR Grant application forms. Observations on the content was given by Mrs Sharon Jones, Welsh Language Champion.
(iii) Medrwn Môn.	(iii) Medrwn Môn.
(a) Derbyniwyd gwybodaeth am Car Linc Môn.	(a) Information on Anglesey Car Link received.
(b) Diweddariad ar Raglen Cynllunio Lle. Er gwybodaeth.	(b) Update on Place Shaping Programme. For information.
(iv) Menter Môn. Digwyddiad yn Neuadd y Dref Llangefni, 07/02/202 yn arddangos gwaith sydd wedi cael ei gyflawni drwy un o brosiectau LEADER Menter Môn - Cartrefi Hapus Carbon Isel. Derbyn er gwybodaeth.	(iv) Menter Môn. Event on 07/02/2020 at Llangefni Town Hall showcasing the work done through one of Menter Mon's LEADER projects - Low Carbon Happy Homes. For information.
6. Materion ariannol	6. Financial matters
(a) Penderfynwyd rhoi rhodd i fudiadau lleol fel a ganlyn: £100.00 Ysgol y Ffridd; £50.00 Ysgol Feithrin; £50.00 Clwb Hwyl; £50.00 Ysgol Sul Capel Moriah; £50.00 Clwb yr Henoed; £100.00 at gynnal a chadw mynwent Eglwys St, Morhaearn; £100.00 at gynnal a chadw mynwent Capel Jerusalem.	(a) It was decided to give a donation to the following local organisations: £100.00 Ysgol y Ffridd; £50.00 Nursery School; £50.00 Fun Club; £50.00 Moriah Chapel Sunday School; £50.00 Pensioners' Club; £100.00 towards maintaining the cemetery at St. Morhaearn Church; £100.00 towards maintaining the cemetery at Jerusalem Chapel. Jerusalem.
7. Unrhyw fater arall yn ôl doethineb y Cadeirydd.	7. Any other matter at the Chairman's discretion.
(a) Lôn rhwng Pendref a Tŷ Newydd. Cafwyd ar ddeall bod mwd trwchus ar y lon uchod. Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd Bob Parry ddod a'r mater i	(a) Road between Pendref and Tŷ Newydd. It was reported that thick mud was covering the above road. It was decided to ask Councillor Bob Parry to

<p>sylw'r Cyngor Sir.</p>	<p>bring this matter to the attention of the County Council.</p>
<p>(b) Tipio anghyfreithlon. Sbwriel wedi'i adael yn Lôn Felin a hefyd yn y cae gerllaw. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngorydd Bob Parry ddod a'r mater i sylw'r Cyngor Sir.</p>	<p>(b) Fly tipping. Rubbish left in Lôn Felin and also in the field nearby. It was decided to ask Councillor Bob Parry to bring this matter to the attention of the County Council.</p>
<p>(c) Y Clerc wedi derbyn e-bost ar ei chyfrifiadur personol ynglŷn â gwybodaeth dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Yr e-bost yn cynnwys camgymeriadau gramadegol a sillafu ac felly wedi codi amheuaeth am yr e-bost. Y Clerc wedi cysylltu â Mel ab Owain, Unllais Cymru i ofyn am gyngor, ac wedi cael cyfarwyddyd ganddo i anwybyddu'r e-bost gan ei fod yn gwybod mai Spam oedd yr e-bost. Penderfynwyd i'r Clerc anwybyddu'r e-bost.</p>	<p>(c) The Clerk had received an email on her personal computer regarding information under the FOI Act. The email contained grammatical and spelling mistakes and this had raised suspicion as to its validity. The Clerk had contacted Mel ab Owain, OneVoice Wales to seek his advice and had received instruction to ignore the email as he knew that the email was a Spam. It was decided that the Clerk should ignore the email.</p>
<p>8. Pennu dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf. Gan fod dathliadau Gŵyl Dewi yn digwydd ar yr 2 Mawrth, penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf nos Lun, 9 Mawrth 2020 am 7pm yng Nghanolfan yr Henoed.</p>	<p>8. Fix a date for the next meeting. As St.David's day celebrations were held on the 2 March, it was decided that the next meeting of the Council would be held on Monday 9 March 2020 at 7pm at the Pensioners Hall.</p>